# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Ymgynghoriad

**Rhagfyr 2020**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

# Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Ymgynghoriad

**Rhagfyr 2020**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD


BWRDD TALIADAU
REMUNERATION BOARD

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ 1
**Sut i gyflwyno ymateb** ........ 3
**Crynodeb o'n polisi preifatrwydd** ........ 4
**Cyflwyniad** ........ 7
**Crynodeb o'r cynigion** ........ 8
**1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** ........ 10
**2. Cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol** ........ 12
**3. Lwfans Llety Preswyl** ........ 19
**4. Darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â theithio i'r Undeb Ewropeaidd** ........ 21
**5. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr** ........ 24
**6. Cyflogau a Chynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Senedd** ........ 28
**7. Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu** ........ 33
**8. Y Lwfans Cymorth i Bleidau Gwleidyddol** ........ 36
**9. Cydraddoldeb** ........ 41


BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Sut i gyflwyno ymateb

Os hoffech gyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion i'r cyfeiriad a ganlyn:

Post:

Clerc y Bwrdd Taliadau,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd CF99 1SN

E-bost: **Taliadau@senedd.cymru**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 11 Chwefror 2021. Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod.

# Crynodeb o'n polisi preifatrwydd

Mae'r datganiad isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r ffordd y byddwn yn trin y wybodaeth a roddir gennych. Mae ein polisi preifatrwydd llawn ar gael ar ein gwefan yn: **https://www.bwrddtaliadau.cymru/polisi-preifatrwydd-2/.**

Y Bwrdd yw'r rheolydd data a bydd yn sicrhau y caiff gwybodaeth ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn dibynnu ar y sail gyfreithiol bod angen prosesu'r data fel rhan o dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Y dasg yw hwyluso ein gwaith a chyflawni ein swyddogaethau. Caniateir i ni brosesu data personol categori arbennig pan fo angen gwneud am resymau er budd sylweddol i'r cyhoedd.

## Pam rydym yn casglu gwybodaeth a beth rydym yn ei wneud â'r wybodaeth

Defnyddir y wybodaeth a gyflwynir gennych i lywio ein penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad. Bydd aelodau'r Bwrdd a'r ysgrifenyddiaeth yn gweld eich sylwadau yn llawn. Gellir rhannu rhywfaint o'r wybodaeth â Chomisiwn y Senedd wrth ystyried unrhyw newidiadau a sut i'w gweinyddu.

Caniateir i ni gyhoeddi eich sylwadau ar ein gwefan. Caniateir i ni hefyd gyhoeddi rhannau o'ch sylwadau mewn dogfennau a lunnir ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd sylwadau a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd. Rhowch wybod i ni os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich sylwadau.

Bydd ymatebion yn cael eu cadw ar systemau TGCh diogel Comisiwn y Senedd (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft) hyd nes y byddwn wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac am ddim hwy na chwe mis ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir i'r parth cyhoeddus yn aros yno. Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn cadw ymatebion dienw.

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych.

## Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau, gan gynnwys yr hawl i ofyn am fynediad i'ch gwybodaeth. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn:

- i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch;
- i ni ddileu gwybodaeth amdanoch (o dan rai amgylchiadau);
- i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu o dan rai amgylchiadau; a
- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti (eto, o dan rai amgylchiadau).

## Ein manylion cyswllt

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn, cysylltwch â'r Ysgrifenyddiaeth yn: taliadau@senedd.cymru.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO) yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF


BWRDD TALIADAU
REMUNERATION BOARD

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnig newidiadau i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, yn sgil pandemig COVID-19.

Cyhoeddwyd y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ar 4 Mehefin 2020 a bydd yn dod i rym ar y diwrnod cyntaf ar ôl etholiad nesaf y Senedd.

Mae'r Senedd wedi gweld newidiadau sylweddol i bwerau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r sefydliad a'i Haelodau dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn ogystal â bodloni gofynion newid cyfansoddiadol, mae Aelodau'r Chweched Senedd hefyd yn debygol o wynebu'r her o gynrychioli eu hetholwyr a dwyn y Llywodraeth i gyfrif yng nghyd-destun argyfwng iechyd byd-eang parhaus a'r effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cysylltiedig.

Fel Bwrdd newydd (a sefydlwyd ym mis Medi 2020), roedd angen i ni ystyried sawl mater nad oeddent wedi'u datrys i gwblhau'r Penderfyniad ar gyfer tymor nesaf y Senedd yng ngoleuni'r amgylchiadau eithriadol oherwydd pandemig COVID-19. Bwriad ein cynigion yw rhoi mwy o eglurder i'r Aelodau a'u staff ar yr adeg ansicr hon.

Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn adlewyrchu pwyslais y Bwrdd ar werth am arian a gwneud penderfyniadau sy'n briodol yng nghyd-destun amgylchiadau ariannol ehangach Cymru, gan hwyluso gwaith yr Aelodau ar yr un pryd.

Mae pwysigrwydd meithrin perthynas waith effeithiol a phriodol rhwng y Bwrdd a'r Aelodau a'u staff yn glir. Rydym yn edrych ymlaen, felly, at ddatblygu a gwella'r perthnasoedd hyn yn ystod ein tymor.

Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich sylwadau ar y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon ac edrychwn ymlaen at eu hystyried yn y flwyddyn newydd.



**Dr Elizabeth Haywood**
**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

# Crynodeb o'r cynigion

Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar y newidiadau isod y mae'n cynnig eu gwneud i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

**Cynnig 1.** Yn sgil yr amgylchiadau economaidd presennol, ar ôl rhewi cyflogau'r Aelodau yn 2019/20, mae'r Bwrdd yn cynnig:

a. o ran cyflogau 2020/21, parhau â phenderfyniad y Bwrdd i rewi cyflogau ar gyfradd 2019/20 (h.y. i beidio â chymhwyso'r cynnydd o 4.4 y cant o ran enillion cyfartalog a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru am y flwyddyn berthnasol);

b. o ran cyflogau 2021/22, cymhwyso'r cynnydd mewn enillion cyfartalog o 2.4 y cant a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn berthnasol i'r cyflogau sylfaenol wedi'u rhewi. Mae hyn yn golygu mai cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd fydd £69,273 , yn hytrach na £72,321 fel y cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020;

c. cyflwyno terfyn uchaf blynyddol o dri y cant ar gyfer y cynnydd ym mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a diystyru unrhyw ostyngiad llai na sero y cant i godiadau cyflog Aelodau a deiliad swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.

**Cynnig 2.** Peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer y Chweched Senedd.

**Cynnig 3.** Dileu neu newid (fel y bo'n briodol) yr holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd yn y darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â siwrneiau'r Aelodau.

**Cynnig 4.** Symud costau deunydd ysgrifennu mewn ffordd sy'n niwtral o ran cost o Gomisiwn y Senedd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. I adlewyrchu hyn, bydd y lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn cynyddu £1,800 i £20,060 (neu £6,712 pan fo'r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig) ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

**Cynnig 5.** Bydd Aelodau sy'n dychwelyd yn cael defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i hawlio am gostau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad i'r Senedd;

**Cynnig 6.** Gwella'r cynllun pensiwn ar gyfer staff cymorth drwy gyflwyno cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr, lle bydd y cyflogwr yn talu swm sy'n cyfateb i'r cyfraniadau a delir gan y cyflogai hyd at uchafswm o dri y cant o gyflog y cyflogai.

**Cynnig 7.** O ran cyflog staff cymorth yr Aelodau yn y Chweched Senedd, cyflwyno terfyn uchaf ar y cynnydd blynyddol yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion o dri y cant a diystyru unrhyw ostyngiad o dan sero y cant.

**Cynnig 8.** Dileu'r angen am ganllawiau ychwanegol gan y Bwrdd ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Yn yr un modd â'r holl wariant o dan y Penderfyniad, bydd Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn gymwys. Fel diwygiad canlyniadol, mae'r Bwrdd yn cynnig cynnwys terfyn amser cyfatebol yn y Penderfyniad o ran polisi ac ymchwil o dan y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, o bedwar mis cyn etholiad cyffredinol (mae hyn wedi'i gynnwys fel rheol ar gyfer Cronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yr Aelodau ar hyn o bryd, ond dim ond yn y canllawiau ar gyfer y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol).

**Cynnig 9.** Dim ond o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y caiff Aelodau dalu costau argraffu ac arwyddion, ac nid o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

**Cynnig 10.** Mewn ymateb i'r chwyddiant costau a welwyd yn sgil yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, cynyddu'r lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

**Cynnig 11.** Newid y diffiniad o 'bleidiau gwleidyddol' yn adran 'Dehongli' y Penderfyniad i:

"Ystyr "Plaid Wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol a gofrestrwyd â'r Comisiwn Etholiadol neu (ii) yr hyn yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3(ii), neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei fod yn aelod o Blaid Wleidyddol gofrestredig."

### Ystyriaethau cydraddoldeb

Er mwyn llywio ei asesiad effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, byddai'r Bwrdd yn falch o glywed eich barn ar y pwyntiau a ganlyn:

- a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon arwain at unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchodedig; ac
- a allai'r materion a godwyd gennych wrth ymateb i'r arolwg hwn gael effaith wirioneddol neu effaith bosibl ar bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchodedig fel y cânt eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

# 1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

## 1.1. Cefndir

**1.1.1.** Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau o’r Senedd (yr Aelodau) fel y gallant ymgymryd â'u rôl gan ddangos gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus. Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

**1.1.2.** Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir yn sail i waith y Bwrdd:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

**1.1.3.** **Cyhoeddodd** y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ar 4 Mehefin 2020, tua blwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021, i roi gwybod i ddarpar ymgeiswyr am y cyflog, y cymorth a'r lwfansau a fyddai ar gael iddynt pe baent yn cael eu hethol.

**1.1.4.** Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Penderfyniad bob blwyddyn i sicrhau bod y darpariaethau a amlinellir yn parhau i fod yn berthnasol os bydd yr amgylchiadau'n newid (er enghraifft, uwchraddio lwfansau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf), a’u bod yn adlewyrchu’r profiad a fagwyd gan y Bwrdd wrth weithredu ei benderfyniadau. Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu'r broses flynyddol a gynhelir gan y Bwrdd, ond mae hefyd yn trafod materion na chawsant eu datrys yn yr adolygiad blaenorol ar gyfer y Chweched Senedd, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw. Mae effaith pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ymhellach ar y trafodaethau hyn.

**1.1.5.** Nodir isod y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad hwn o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

- pa mor addas yw lefel y cymorth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- gonestrwydd, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

## 1.2. Methodoleg

**1.2.1.** Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn dryloyw, yn atebol ac yn adlewyrchu amgylchiadau ariannol ehangach Cymru, trafododd y Bwrdd ddarpariaethau penodol yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ar y cyflogau, y cymorth a’r lwfansau a ddarperir i’r Aelodau o’u cymharu â ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys:

- sut y mae Aelodau wedi defnyddio'r lwfansau amrywiol hyd yn hyn yn y Pumed Senedd;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU; a
- chymariaethau ag amryw fesurau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac economi ehangach Cymru.

**1.2.2.** Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu trafodaethau’r Bwrdd ynghylch y darpariaethau a’r cynigion ar gyfer ymgynghoriad.

# 2. Cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol

## 2.1. Crynodeb

Mae cyflogau'r Aelodau wedi'u rhewi yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ar £67,649. Gwnaed hyn drwy ddatgymhwyso mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion tan ddechrau'r Chweched Senedd. Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r cyflog cychwynnol i Aelodau'r Chweched Senedd yn unol â mynegai'r Arolwg eleni (sef 2.4 y cant) a rhoi terfyn uchaf ar unrhyw newidiadau tâl blynyddol, gan ddechrau ym mis Mai 2021.

## 2.2. Cefndir

**2.2.1.** Mae'n ofynnol i'r Bwrdd arfer ei swyddogaethau â'r bwriad o roi lefel o dâl a lwfansau i'r Aelodau:

- sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni; ac
- nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ymgeisio i gael eu hethol i'r Senedd.

**2.2.2.** Dim ond un penderfyniad y caiff y Bwrdd ei wneud ym mhob un o dymhorau pum mlynedd y Senedd ar gyflogau Aelodau, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Dim ond pan fydd amgylchiadau eithriadol yn golygu y byddai'n gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny y gellir gwneud ail benderfyniad neu benderfyniad dilynol ar gyflogau o'r fath.

**2.2.3.** Mae Pennod 3 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi'r cyflogau a'r trefniadau pensiwn y mae gan Aelodau a deiliaid swyddi hawl iddynt. Mae hefyd yn nodi y bydd cyflogau'n cael eu haddasu'n awtomatig ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn enillion canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac

Enillion[1.] Mae hyn yn darparu addasiadau blynyddol i gyflogau Aelodau yn unol â'r newidiadau cyfartalog yn enillion gweithwyr yng Nghymru.

**2.2.4.** Oherwydd ansicrwydd ynghylch y dirywiad economaidd a ragwelir yn sgil y pandemig, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad eithriadol[2] ar 30 Mawrth 2020, gan atal unrhyw addasiadau i gyflogau Aelodau am gyfnod o chwe mis. Felly, gohiriwyd tan 1 Hydref 2020 y cynnydd o 4.4 y cant (yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) i gyflogau Aelodau y bwriadwyd ei gymhwyso ar 1 Ebrill 2020.

**2.2.5.** Yn dilyn hynny, wrth i'r ansicrwydd economaidd barhau yn nhymor yr hydref, datgymhwysodd y Bwrdd y cynnydd yng nghyflogau'r Aelodau y bwriadwyd ei dalu ar 1 Hydref drwy gyhoeddi penderfyniad eithriadol arall ar 29 Medi 2020. Gwnaed hyn drwy ddileu'r cynnydd yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a drafodwyd ym mharagraff 2.3 o'r Penderfyniad. Mae hynny'n golygu bod cyflogau Aelodau wedi'u rhewi ar gyfer y flwyddyn 2020-21 ac na fydd unrhyw gynnydd pellach cyn dechrau'r Chweched Senedd.

**2.2.6.** Cafodd penderfyniadau'r Bwrdd i beidio â chynyddu cyflogau Aelodau eu llywio gan yr egwyddor bod "rhaid i benderfyniadau fod yn briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru."

**2.2.7.** Ym mis Mehefin 2020, roedd y Bwrdd blaenorol eisoes wedi cyhoeddi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd heb ystyried y byddai cyflogau'n cael eu rhewi yn ystod y flwyddyn hon. Felly, y disgwyl oedd y byddai cyflog Aelod yn £72,321 ar ddechrau'r Chweched Senedd (gan gyfrif am fynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2019 a 2020).

---

[1] Cynhelir yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd tâl Aelodau, deiliaid swyddi a staff yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn enillion canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

[2] Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau anghyffredin o dan rai amgylchiadau pan fo'n credu ei bod yn rhesymol ac yn gyfiawn i wneud hynny. Os bydd y Bwrdd yn gwneud y penderfyniad o'r fath, rhaid iddo roi gwybod i Gomisiwn y Senedd yr un pryd ag y daw'r penderfyniad hwnnw i rym.

## 2.3. Trafod y dystiolaeth

**2.3.1** Trafododd y Bwrdd a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud penderfyniad ar gyflogau Aelodau a fydd yn dod i rym ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd. Fel rhan o hyn, trafododd y Bwrdd yr ansicrwydd parhaus ynghylch pandemig COVID-19 a'i effaith, yn enwedig y cyd-destun economaidd, ac ansefydlogrwydd mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion.

**2.3.2** Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar gyflogau ar gyfer y Chweched Senedd, bu'r Bwrdd yn ystyried yr egwyddorion sy'n sail i'w benderfyniadau ar gyflogau. Sicrhaodd y Bwrdd blaenorol fod ei benderfyniadau (gan gynnwys y rhai ar gyflogau) yn "briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru." Ategwyd hyn ymhellach gan y Bwrdd presennol yn ei benderfyniad eithriadol diweddar ar 29 Medi 2020. Roedd y Bwrdd o'r farn bod hon wedi bod yn un o brif egwyddorion arweiniol y Bwrdd.

**2.3.3** Yn olaf, trafododd y Bwrdd ar ba lefel y byddai'n briodol gosod y cyflog sylfaenol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd, a sut y dylid mynegeio cyflogau yn nhymor nesaf y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys gwerthuso manteision a risgiau y gwahanol ddulliau mynegeio sydd ar gael, gan gynnwys yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ac amrywiadau eraill ar yr Arolwg) yn ogystal ag ystadegau gwladol eraill fel enillion wythnosol cyfartalog[3].

## 2.4. Casgliadau

**2.4.1.** Yng nghyd-destun yr ansicrwydd economaidd presennol yng Nghymru a achoswyd gan bandemig COVID-19, a sefyllfa lle y byddai tâl Aelodau wedi cynyddu 6.9 y cant[4] rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2021 pe na bai cyflogau wedi'u rhewi yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r Bwrdd wneud penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd. Pe

---

[3] Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn casglu set ddata **enillion wythnosol cyfartalog** sy'n dangos y newidiadau byrdymor o ran enillion yn y DU. Defnyddir enillion wythnosol cyfartalog yn helaeth i fesur twf cyflogau.

[4] Oherwydd y cynnydd cyfansawdd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sef 2.4 y cant ar gyfer 2021-22, ynghyd â chynnydd o 4.4 y cant yn 2020-21.

bai'r Bwrdd yn penderfynu gweithredu'r cynigion a amlinellir ar ôl yr ymgynghoriad, bydd yn gwneud hynny fel penderfyniad eithriadol.

**2.4.2.** Pan wnaeth y Bwrdd ei benderfyniadau blaenorol yn ystod 2020, gwnaeth hynny o dan amgylchiadau lle’r oedd yn ofynnol iddo weithredu ar frys. O'r herwydd, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd yn ymarferol ymgynghori ar yr adegau hynny. Nid yw'r Bwrdd yn wynebu'r un brys ar hyn o bryd. Os cânt eu mabwysiadu, byddai cynigion y Bwrdd yn dod i rym ar ddechrau'r Chweched Senedd. Felly, mae'r Bwrdd yn ymgynghori ar ei gynigion ar gyfer y Chweched Senedd.

**2.4.3.** Gan fod cyflogau wedi'u rhewi ar gyfer 2020-21, y cyflog sylfaenol cyfredol ar gyfer Aelodau yw £67,649 (fel yn 2019-20). Nododd y Bwrdd, pe na bai cyflogau wedi’u rhewi ar gyfer y cyfnod cyfredol, yna byddai'r Aelodau wedi cael cyflog sylfaenol o £72,321 ar ddechrau'r Chweched Senedd. Mae hynny oherwydd y byddai’r cyflog sylfaenol wedi cynyddu’n unol â mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sef 4.4 y cant ym mis Ebrill 2020 a 2.4 y cant ym mis Ebrill 2021. Ar y sail bod cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi wedi'u rhewi yn ystod 2020-2021 (sy'n gyfystyr â chyflog ychydig yn is mewn termau real o ystyried y cynnydd mewn costau chwyddiant), a bod yn rhaid i'w cyflog adlewyrchu cymhlethdod y rôl a gyflawnwyd yn deg, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y dylid addasu’r cyflogau ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd. Roedd y Bwrdd o'r farn y gallai parhau i rewi cyflogau arwain at sefyllfa lle na fydd cyflogau bellach yn adlewyrchu'r rôl yn deg a gallai hynny olygu bod angen cynnydd sylweddol mewn cyflogau yn y dyfodol.

**2.4.4.** Mae'r Bwrdd o'r farn mai mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sy'n adlewyrchu tueddiadau cyffredinol mewn newidiadau cyflog yng Nghymru, yw’r ffordd fwyaf priodol sydd ar gael o addasu cyflogau Aelodau yn y dyfodol. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu data penodol am Gymru, yn wahanol i enillion wythnosol cyfartalog y DU. Mae seilio penderfyniadau ar amgylchiadau economaidd Cymru yn un o brif egwyddorion arweiniol y Bwrdd. Fodd bynnag, dylid ystyried ffigurau mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sy'n seiliedig ar dueddiadau cyflog yn y flwyddyn ariannol flaenorol, yng nghyd-destun yr amodau economaidd cyfredol. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o ansefydlogrwydd posibl addasiadau cyflog yn unol â mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel y mae'n berthnasol i gyflogau yng Nghymru.

**2.4.5.** O ystyried hyn oll, mae'r Bwrdd yn cynnig ailddechrau mynegeio cyflogau Aelodau bob blwyddyn yn unol â mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Byddai hyn yn golygu bod cyflog sylfaenol yr Aelodau yn parhau i fod yn gysylltiedig ag enillion cyfartalog gweithwyr yng Nghymru. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig cymhwyso mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac

Enillion eleni, sef 2.4 y cant, i'r cyflog sylfaenol cyfredol (wedi'i rewi) o £67,649. Felly, bydd yr Aelodau yn cael cyflog sylfaenol o £69,273 y flwyddyn ar ddechrau'r Chweched Senedd, a bydd eu cyflogau'n parhau i fod yn gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion bob blwyddyn wedi hynny.

**2.4.6.** Mae'r tabl isod yn dangos sut y byddai'r mynegai hwn yn berthnasol i gyflogau deiliaid swyddi ychwanegol:

***Tabl 1: Cyflogau arfaethdig deiliaid swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd***

| Cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol | Cyflog Sylfaenol 2021-22 | Cyflog Ychwanegol 2021-22 | Cyfanswm Cyflog 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | £69,273 | £82,262 | £151,535 |
| Gweinidogion Cymru | £69,273 | £38,965 | £108,238 |
| Y Cwnsler Cyffredinol[5] | £69,273 | £38,965 | £108,238 |
| Dirprwy Weinidogion | £69,273 | £22,730 | £92,003 |
| Y Llywydd | £69,273 | £44,378 | £113,651 |
| Y Dirprwy Lywydd | £69,273 | £22,730 | £92,003 |
| Comisiynwyr y Senedd | £69,273 | £14,071 | £83,344 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch) | £69,273 | £14,071 | £83,344 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (is) | £69,273 | £9,374 | £78,647 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £69,273 | £9,374 | £78,647 |
| Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw mewn Llywodraeth.[6] | £69,273 | £14,071 + £1,082 yr Aelod hyd at £38,957 | Ystod rhwng £86,590 a £108,230[7] |

**2.4.7.** Fel y nodwyd, mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o ansefydlogrwydd posibl addasiadau cyflog yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel y mae'n berthnasol i

[5] Gweler 3.1.7 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau o ran Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod

[6] Diffinnir Grŵp Gwleidyddol yn Rheolau Sefydlog y Senedd

[7] Mae cyflog Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw mewn Llywodraeth wedi'i gapio ar y cyflog sy'n daladwy i un o Weinidogion Cymru

gyflogau yng Nghymru. Mae'n debygol bod y data o Gymru sy'n rhan o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn fwy tueddol o amrywio'n flynyddol am fod maint sampl y data yn llai. Mae'r Bwrdd yn cytuno mai defnyddio mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yw'r dangosydd gorau o dueddiadau cyflog yng Nghymru a bod hyn yn bwysicach nag effaith unrhyw amrywiadau blynyddol posibl.

**2.4.8.** Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r risg o amrywiadau mawr yn y mynegai mewn cyfnod economaidd ansicr, fel y gwelwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd yn cynnig cyflwyno mesur pellach i gyfyngu ar effaith unrhyw ansefydlogrwydd.

**2.4.9.** I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig na fydd cyflogau Aelodau yn y dyfodol yn cynyddu uwchlaw terfyn uchaf o dri y cant nac yn gostwng yn is na sero y cant. Bydd hyn yn osgoi'r risg o gymhwyso codiadau cyflog yn y dyfodol sy'n anghymesur yng nghyd-destun yr amodau economaidd ar y pryd. Ym marn y Bwrdd, mae hyn yn deg i'r Aelodau ac i drethdalwyr Cymru. Cytunodd y Bwrdd hefyd ei bod yn bwysig bod gan Aelodau rywfaint o sicrwydd ynghylch yr isafswm cyflog a fyddai'n cael ei dalu yn ystod tymor y Senedd, ac felly osgoi'r risg o gymhwyso gostyngiadau cyflog yn y dyfodol.

**2.4.10.** I roi'r cynigion hyn ar waith, byddai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- byddai'r holl gyfeiriadau at gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ym Mhennod 3 yn cael eu diwygio fel y nodir ym mharagraff 2.16 a thabl 1; a
- byddai'r testun a ganlyn yn cael ei fewnosod fel paragraff 3.2.2 newydd:

  *Ni fydd yr addasiad a wneir gan baragraff 3.2.1 yn is na sero y cant ac ni fydd yn uwch na thri y cant.*

**Cynnig 1. Yn sgil yr amgylchiadau economaidd presennol, ar ôl rhewi cyflogau'r Aelodau yn 2019/20, mae'r Bwrdd yn cynnig:**

a. **o ran cyflogau 2020/21, parhau â phenderfyniad y Bwrdd i rewi cyflogau ar gyfradd 2019/20 (h.y. i beidio â chymhwyso'r cynnydd o 4.4 y cant o ran enillion cyfartalog a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru am y flwyddyn berthnasol);**

b. **o ran cyflogau 2021/22, cymhwyso'r cynnydd mewn enillion cyfartalog o 2.4 y cant a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn berthnasol i'r cyflogau sylfaenol wedi'u rhewi. Mae hyn yn golygu mai cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd fydd £69.273 , yn hytrach na £72,321 fel y cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020;**

c. **cyflwyno terfyn uchaf blynyddol o dri y cant ar gyfer y cynnydd ym mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a diystyru unrhyw ostyngiad llai na sero y cant i godiadau cyflog Aelodau a deiliad swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.**

# 3. Lwfans Llety Preswyl

## 3.1. Crynodeb

Mae'r Bwrdd yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfraddau a nodir o ran y lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer y Chweched Senedd.

## 3.2. Cefndir

**3.2.1** Mae Pennod 4 o’r Penderfyniad yn trafod y cymorth sydd ar gael i Aelodau y mae’n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros i ffwrdd o’u prif gartrefi mewn perthynas â chyflawni rôl Aelod.

**3.2.2** Rhoddir prif gartref Aelod mewn un o dri chategori (yn seiliedig ar leoliad), sef yr ardal fewnol, yr ardal ryngol a’r ardal allanol (fel yr amlinellir yn adrannau 4.2-4.4 o'r Penderfyniad). Mae lefel benodol o gymorth i dalu am lety dros nos yng Nghaerdydd yn cyfateb i bob ardal. Mae'r Bwrdd yn adolygu gwerth y lwfansau sydd ar gael ar gyfer pob ardal bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau’n addas at y diben.

**3.2.3** Mae Pennod 4 hefyd yn nodi’r cymorth sydd ar gael i Aelodau sy’n aros dros nos y tu allan i Gaerdydd, os bydd angen iddynt wneud hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau etholedig.

## 3.3. Ystyriaethau

**3.3.1.** Fel y nodwyd, mae Pennod 4 yn trafod y cymorth a ddarperir i’r Aelodau am gostau ychwanegol a ysgwyddir wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi pan fyddant yn cyflawni busnes y Senedd. Caiff Aelodau’r “ardal allanol” hawlio hyd at £9,720 y flwyddyn (£810 y mis calendr), tra bod Aelodau’r “ardal ryngol” yn cael hawlio hyd at £6,840 y flwyddyn (£570 y mis calendr). Mae hefyd yn cynnwys mathau eraill o gymorth fel lwfans gofalwyr a chostau ar gyfer gwaith adnewyddu hanfodol.

**3.3.2.** Trafododd y Bwrdd sut y mae’r Aelodau’n defnyddio’r lwfansau uchod a'r costau yr eir iddynt. Bu’r Bwrdd hefyd yn adolygu ffyrdd gwahanol o uwchraddio’r lwfansau a ddarperir.

## 3.4. Casgliadau

**3.4.1.** O gymharu gwariant cyfredol yr Aelodau â'r lwfansau sydd ar gael, gwelir eu bod yn ddigonol ar y cyfan ar gyfer eu hanghenion. Gwelodd y Bwrdd hefyd ddadansoddiadau sy'n dangos nad yw costau rhentu a gwestai yng Nghaerdydd wedi newid digon i gyfiawnhau cynnydd i'r lwfansau cyfredol. Felly, penderfynodd y Bwrdd fod y cyfraddau cyfredol a ddarperir yn ddigonol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

**Cynnig 2. Mae'r Bwrdd yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer y Chweched Senedd.**

# 4. Darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â theithio i'r Undeb Ewropeaidd

## 4.1. Crynodeb

Gan mai'r bwriad yw i'r cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, mae'r Bwrdd yn cynnig gwneud rhai newidiadau canlyniadol i adlewyrchu'r sefyllfa hon yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

## 4.2. Cefndir

**4.2.1** Mae Pennod 5 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau i dalu costau teithio a ysgwyddir wrth iddynt arfer eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd.

**4.2.2** Darperir ar gyfer pedwar dull o deithio yn y Penderfyniad:

- teithio o fewn Cymru (y cyfeirir ato fel "teithio arferol")
- teithio mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru (y cyfeirir ato fel "teithio estynedig");
- teithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd ond y tu allan i'r DU fel aelod wladwriaeth (y cyfeirir ato fel "teithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd");
- teithio y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (y cyfeirir ato fel "teithio rhyngwladol").

**4.2.3** Mae'r Penderfyniad yn darparu bod gan bob Aelod, mewn unrhyw flwyddyn ariannol, yr hawl i wneud hyd at bedair siwrnai ddwyffordd rhwng Cymru ac unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes y Senedd. Yn unol â'r darpariaethau hyn, caiff Aelodau hawlio costau teithio ac aros dros nos am hyd at ddwy noson. Yn unol â'r Penderfyniad, mae'n ofynnol i Aelodau gyflwyno datganiad cyn iddynt fynd ar siwrnai o ddiben, lleoliad a hyd yr ymweliad, a'r personau neu'r cyrff y bwriedir cyfarfod â hwy, i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

**4.2.4** Mae'r Penderfyniad hefyd yn darparu y caiff Aelod ofyn i'r Prif Weithredwr a'r Clerc am ganiatâd i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd ranbarthol, cyngor rhanbarthol neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd.

**4.2.5** Mae'r darpariaethau o ran teithio y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn nodi y caiff Aelod wneud cais i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i deithio i wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Yn unol â'r darpariaethau hyn, caiff Aelodau hawlio costau teithio ac aros dros nos am hyd at bum noson.

**4.2.6** Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 1 Ionawr 2020 ac mae'r cyfnod trosglwyddo yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Cadwyd y darpariaethau o ran siwrneiau Aelodau yn yr Undeb Ewropeaidd yn y Penderfyniad ar gyfer 2020-21 i ganiatáu ar gyfer unrhyw ofynion teithio busnes yn ystod y cyfnod pontio.

**4.2.7** Gan nad oedd gan y DU Aelodau o Senedd Ewrop mwyach ar adeg cyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Mehefin 2020, mae unrhyw gyfeiriadau atynt eisoes wedi'u dileu.

## 4.3. Trafod y dystiolaeth

**4.3.1.** Nododd y Bwrdd y bydd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi dod i ben cyn sefydlu'r Chweched Senedd.

**4.3.2.** Ymhellach, nodwyd y gellid cymhwyso'r darpariaethau ynghylch teithio rhyngwladol i deithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

**4.3.3.** Nid oedd y Bwrdd yn gweld rheswm i wahaniaethu rhwng teithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan iddi yn dilyn ymadawiad y DU.

## 4.4. Casgliadau

**4.4.1** Gan nad yw'r DU yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd mwyach a chan y bydd y cyfnod pontio wedi dod i ben cyn dechrau'r Chweched Senedd, nid yw'r Bwrdd yn gweld unrhyw sail dros gadw darpariaeth benodol wrth Benderfynu lwfansau ar gyfer teithio yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Bwrdd yn cynnig dileu'r holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd yn y darpariaethau sy'n ymwneud â siwrneiau Aelodau yn y Penderfyniad.

**4.4.1.** O dan y cynnig hwn, byddai siwrneiau gan Aelodau i aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau teithio rhyngwladol sy'n gymwys ar hyn o bryd i wledydd nad ydynt yn aelod-wladwriaethau o'r Undeb Ewropeaidd.

**4.4.2.** I weithredu'r cynnig hwn, byddai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

- Dileu'r trydydd pwynt ym mharagraff 5.1.1;
- Dileu'r geiriau "yr Undeb Ewropeaidd" yn y pedwerydd pwynt ym mharagraff 5.1.1 a mewnosod "y Deyrnas Unedig" yn eu lle;
- Dileu'r cyfeiriadau at baragraffau 5.12.1 a 5.14.1;
- Dileu'r pennawd "Teithio yn yr Undeb Ewropeaidd" a mewnosod "Teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig" yn ei le;
- Dileu adrannau 5.12 i 5.14;
- Dileu'r geiriau "Undeb Ewropeaidd" ym mharagraff 5.15.1 a mewnosod "Deyrnas Unedig" yn eu lle;
- Dileu'r geiriau "Caiff unrhyw ymweliad o dan y Paragraff hwn fod yn lle ymweliad y gellid fod wedi'i wneud fel arall o dan Baragraffau 5.12.1 neu 5.14.1." o baragraff 5.15.1.

**Cynnig 3. Mae'r Bwrdd yn cynnig dileu neu newid (fel y bo'n briodol) yr holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd yn y darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â siwrneiau'r Aelodau.**

# 5. Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

## 5.1. Crynodeb

Bydd gwasanaethau deunydd ysgrifennu a ddarperir ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu hariannu o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig gwneud darpariaethau yn seiliedig ar gyfanswm yr hyn y mae'r Aelodau'n ei wario ar ddeunydd ysgrifennu ar hyn o bryd, sy'n golygu bod y cynnig a amlinellir yn niwtral o ran cost. Bydd gan Aelodau rywfaint o hyblygrwydd o ran sut i wario'r arian hwn o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

## 5.2. Cefndir

**5.2.1.** Mae'r darpariaethau ym Mhennod 6 o'r Penderfyniad yn rhoi'r hawl i Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa etholaeth a rhanbarthol a chysylltu ag etholwyr, o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**5.2.2.** Mae'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi y caiff Aelod hawlio swm o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 nad yw'n fwy na'r hyn a nodir isod:

a. £18,260 os oes gan yr Aelod swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod; neu

b. £4,912 os yw'r Aelod yn cyflawni dyletswyddau etholiadol neu ranbarthol o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd.

**5.2.3.** Yn ogystal â gallu defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu costau deunydd ysgrifennu, caiff Aelodau ddefnyddio adnoddau a ariennir yn ganolog, fel deunydd ysgrifennu o dan gontract a ddelir yn ganolog neu wasanaethau postio ac argraffu mewn swmp, i gysylltu â'r cyhoedd neu etholwyr. Ar hyn o bryd darperir gwasanaethau o'r fath gan Gomisiwn y Senedd. Cyfanswm gwaraint yr Aelodau ar gostau o'r fath yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 oedd £107,325, sef cyfanswm o £1,789 yr Aelod ar gyfartaledd.

**5.2.4.** Mae'r Bwrdd wedi cytuno â Chomisiwn y Senedd y dylai'r Bwrdd yn y Chweched Senedd dalu costau deunydd ysgrifennu Aelodau (fel yr amlinellir yn y paragraff uchod), drwy'r Penderfyniad. Bydd hyn yn sicrhau mwy o dryloywder o ran gwariant yr Aelodau ar ddarpariaethau o'r fath.

**5.2.5.** O dan y trefniadau presennol lle mae deunydd ysgrifennu Aelodau yn cael ei ariannu gan Gomisiwn y Senedd, dim ond gan gyflenwr offer swyddfa a deunydd ysgrifennu cymeradwy Comisiwn y Senedd y caiff yr Aelodau gaffael deunydd ysgrifennu.

**5.2.6.** Ar 5 Ebrill 2020, newidiodd enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu The National Assembly for Wales i Senedd Cymru neu Welsh Parliament. Bellach cyfeirir ato'n gyffredin fel y Senedd. Penderfynodd y Bwrdd beidio â chaniatáu lwfans ychwanegol ar gyfer newid eitemau swyddfa'r Aelodau, er enghraifft arwyddion swyddfa, parthau gwe a phapur pennawd, i adlewyrchu'r enw newydd cyn etholiad nesaf y Senedd ym mis Mai 2021. Yn hytrach, er mwyn sicrhau gwerth am arian, mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn rhesymol i Aelodau'r Pumed Senedd ddefnyddio’r cyflenwadau deunydd ysgrifennu presennol am weddill y Pumed Senedd. Bydd angen diweddaru’r deunydd ysgrifennu yn dilyn etholiad nesaf y Senedd i adlewyrchu'r enw newydd. Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth a arweiniodd at newid enw'r Senedd, amcangyfrifwyd y byddai costau diweddaru eitemau swyddfa yn dod i gyfanswm o £292,700, sef £4,878 yr Aelod.

**5.2.7.** Mae hawl gan Aelodau sy’n dechrau ar eu trydydd Senedd (neu fwy) yn olynol i lwfans o £1,000 i adnewyddu rhywfaint o’u dodrefn swyddfa yn ystod blwyddyn gyntaf Senedd newydd, gan gynnwys arwyddion.

## 5.3. Trafod y dystiolaeth

**5.3.1.** Trafododd y Bwrdd a ddylid cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr o ddechrau'r Senedd nesaf i adlewyrchu'r costau ychwanegol i'r Gronfa hon yn sgil newid enw’r sefydliad a throsglwyddo'r gyllideb costau swyddfa o Gomisiwn y Senedd i'r Penderfyniad.

**5.3.2.** Yn dilyn adolygiad o sut y gwnaeth Aelodau ddefnyddio’r Lwfans Costau Swyddfa yn ystod y Pumed Senedd, gwelwyd tanwariant sylweddol yn achos y rhan fwyaf o’r Aelodau.

**5.3.3.** Ar hyn o bryd, caniateir i Aelodau gynnwys logos a brand eu pleidiau gwleidyddol ar ddeunydd cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd neu etholwyr sy'n cael ei ariannu gan Gomisiwn y Senedd. Cred y Bwrdd fod angen ystyried yn y dyfodol a ddylid defnyddio logos o'r fath ar ddeunydd cyfathrebu a ariennir yn gyhoeddus er mwyn osgoi'r risg y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid. Nid yw Senedd yr Alban na Senedd y DU yn caniatáu defnyddio logos ar ddeunydd cyfathrebu o'r fath. Wrth i’r cyfrifoldeb am ariannu costau deunydd ysgrifennu Aelodau gael ei drosglwyddo o Gomisiwn y Senedd i'r Bwrdd, bydd y Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa hon.

**5.3.4.** Mae rhai Aelodau wedi mynegi rhwystredigaeth mai dim ond gan gyflenwr cymeradwy Comisiwn y Senedd y cânt gaffael deunydd ysgrifennu, ac nad oes modd iddynt gaffael deunydd o'r fath gan gyflenwyr lleol. Wrth i'r gyllideb ar gyfer costau deunydd ysgrifennu Aelodau gael ei throsglwyddo o Gomisiwn y Senedd i'r Penderfyniad, nid oes angen parhau â'r gofyniad i gaffael deunydd ysgrifennu gan gyflenwr cymeradwy'r Comisiwn yn unig.

## 5.4. Casgliadau

**5.4.1.** Gan fod y Gronfa hon a'r lwfans sydd ar gael i Aelodau ar ddechrau Senedd newydd yn cael eu tanwario ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn gytûn na ddylid cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr o ddechrau'r Chweched Senedd i ddarparu ar gyfer costau ychwanegol yn sgil newid enw'r sefydliad.

**5.4.2.** Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer tymor nesaf y Senedd i adlewyrchu'r ffaith y bydd costau deunydd ysgrifennu'r Aelodau yn cael eu talu o'r Gronfa hon bellach, a diwedd y trefniant cyfredol o'u hariannu gan Gomisiwn y Senedd. Darperir hyblygrwydd yn y Gronfa sy'n golygu y gall Aelodau sy'n dychwelyd hawlio am unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i newid enw'r sefydliad o'r Cynulliad i'r Senedd.

**5.4.3.** Mae'r cynnig hwn yn niwtral o ran cost, a phe bai'n cael ei weithredu, byddai'n golygu y bydd Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn cynyddu £1,800 yr Aelod. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cyfanswm y gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Senedd ar gyfer costau deunydd ysgrifennu a ariennir yn ganolog wedi'i rannu rhwng y 60 Aelod. Mae'r ffigur wedi'i dalgrynnu i £1,800. Gan fod y swm yn cyfateb yn union i'r hyn y mae Comisiwn y Senedd wedi cyllidebu ar ei gyfer ar hyn o bryd, ni fydd yn arwain at gost ychwanegol i drethdalwyr, yn hytrach bydd y gyllideb yn cael ei throsglwyddo o Gomisiwn y Senedd i Benderfyniad y Bwrdd.

**5.4.4.** Ychwanegir swm o £1,800 at y lwfans costau swyddfa presennol, sef £18,260 (neu £4,912 pan fo'r Aelod yn gweithio yn Nhŷ Hywel yn unig) yr Aelod. Cyfanswm y lwfans fesul Aelod ar ddechrau'r Chweched Senedd fydd £20,060 neu £6,712 felly, yn dibynnu a yw Aelod yn rhentu swyddfa yn ei etholaeth neu ranbarth ai peidio. Felly, bydd y gost i drethdalwyr yn aros yr un fath o'r flwyddyn ariannol hon i'r nesaf.

**5.4.5.** I roi'r cynnig hwn ar waith, byddai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd yn cael ei ddiwygio i gynnwys y lwfansau a nodir ym mharagraff 6.1.2 yn lle'r rhai a nodir ym Mhennod 6.

**Cynnig 4. Mae'r Bwrdd yn cynnig symud costau deunydd ysgrifennu mewn ffordd sy’n niwtral o ran cost o Gomisiwn y Senedd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. I adlewyrchu hyn, bydd y lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn cynyddu £1,800 i £20,060 (neu £6,712 pan fo’r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig) ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.**

**Cynnig 5. Mae'r Bwrdd yn cynnig y bydd yr Aelodau sy'n dychwelyd yn cael defnyddio’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i hawlio am gostau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad i'r Senedd.**

# 6. Cyflogau a Chynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau'r Senedd

## 6.1. Crynodeb

Mae'r Bwrdd yn cynnig cyflwyno terfyn uchaf a therfyn isaf ar gyfer addasu cyflog staff cymorth yn flynyddol yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, o 3 y cant a 0 y cant yn y drefn honno. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i ddarparu swm sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogwr i'w gynllun pensiwn staff cymorth, er mwyn galluogi'r Aelod sy'n cyflogi i dalu'r un faint â'r cyfraniadau a delir gan ei staff cymorth, hyd at uchafswm o dri y cant o gyflog yr aelod o staff.

## 6.2. Cefndir

**6.2.1.** Mae Pennod 7 o'r Penderfyniad yn amlinellu'r ddarpariaeth o ran cymorth staffio sydd ar gael i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys y cyflogau sy'n daladwy i staff cymorth, eu trefniadau pensiwn a'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

**6.2.2.** Caiff staff cymorth yr Aelodau eu cyflogi ar un o bedwar band cyflog – sef Uwch-gynghorydd, Band 1, Band 2 neu Fand 3 – a rhaid eu penodi a'u cyflogi yn unol â Pholisi Recriwtio'r Bwrdd a gyhoeddir gan y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Mae hawl gan Aelod i hawlio costau gwariant staffio, hyd at uchafswm o £104,835, ar gyfer personau a gyflogir ganddo os yw'r costau hynny yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd yn cael eu hysgwyddo i alluogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau Aelod. Mae Pennod 8 o'r Penderfyniad yn amlinellu'r graddfeydd cyflog ar gyfer pleidiau gwleidyddol, sy'n darparu ar gyfer cyflogi staff ar un o bum band cyflog, sef Pennaeth Staff a phedwar band sy'n cyfateb i'r rhai a nodir uchod ar gyfer staff cymorth yr Aelodau.

**6.2.3.** Nodir y bandiau cyflog ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a'r Pleidiau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 yn Adrannau 7.1.5 ac 8.2.6 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd cyflogau o'r fath yn cael eu haddasu bob blwyddyn yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ac Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyflogau a nodir yn cael eu haddasu ym mis Ebrill 2021 cyn y Chweched Senedd.

**6.2.4.** Mae adran 7.11 o Bennod 7 o'r Penderfyniad yn nodi'r darpariaethau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau. Mae gan Aelod hawl i wneud cais am lwfans ar gyfer y gost a dalwyd ganddo wrth gyfrannu at gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff sy'n cael ei dalu:

- o'r Lwfans Gwariant Staffio; neu
- o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.[8]

**6.2.5.** Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o gyflog gwirioneddol yr aelod perthnasol o staff. Mae'r lwfans hwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd canolog ac nid yw'n cyfrif yn erbyn y Lwfans Gwariant Staffio.

**6.2.6.** Mae Adran 8.8 o Bennod 8 o'r Penderfyniad yn nodi'r darpariaethau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau a gyflogir gan Blaid Wleidyddol (fel y'u diffinnir o dan y Penderfyniad). Gellir gwneud cais am ad-daliad ar gyfer costau a ysgwyddir wrth dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff y blaid wleidyddol.

**6.2.7.** Yr uchafswm sy'n daladwy yw 10 y cant o gyflog gwirioneddol yr aelod perthnasol o staff. Mae'r lwfans hwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd canolog ac nid yw'n cyfrif yn erbyn y lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.

**6.2.8.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo eisoes i drafod rhagor o opsiynau i wella'r cynllun pensiwn staff cymorth ar ôl cael adborth gan staff cymorth yn ystod yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.

## 6.3. Trafod y dystiolaeth

**6.3.1.** Caiff cyflogau staff cymorth yr Aelodau eu haddasu bob blwyddyn yn unol â'r un mynegai â'r hyn a ddefnyddir i addasu cyflogau'r Aelodau, sef yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Gan fod y Bwrdd yn cynnig cyflwyno terfyn uchaf a therfyn isaf ar y cynnydd blynyddol yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer cyflogau Aelodau o'r Chweched Senedd, trafododd a ddylai'r un terfynau fod yn gymwys i gyflogau staff cymorth.

[8] Pennod 7 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, Mehefin 2020

Cydnabu hefyd fod gwahanol ystyriaethau'n berthnasol i gyflogau'r Aelodau, sy'n cyflawni swydd etholedig, a chyflogau staff cymorth.

**6.3.2.** Bwriad cynnig y Bwrdd i roi cyfyngiadau ar godiadau blynyddol i gyflogau'r Aelodau yw osgoi'r potensial ar gyfer newidiadau sylweddol iawn i gyflogau o un flwyddyn i'r nesaf, o ganlyniad i ansefydlogrwydd ffigurau mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Gweler Pennod 2 o'r ddogfen hon i gael esboniad llawn o'r rhesymau am y cynnig mewn perthynas â chyflogau'r Aelodau.

**6.3.3.** Cafodd staff cymorth gynnydd o 4.4 y cant i'w cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn unol â ffigur yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn gynnydd cyflog hael o'i gymharu â'r tueddiadau mewn mannau eraill yn ystod yr un cyfnod.

**6.3.4.** Ar yr un pryd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai ffigurau mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion fod yn isel iawn yn y dyfodol os yw'r amodau economaidd cyfredol yn parhau, a'i bod yn bosibl y gallent hyd yn oed ostwng yn is na chyfradd chwyddiant gan arwain at werth negyddol. Y rheswm am hynny yw am fod mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn ôl-weithredol ac felly ni fydd unrhyw effaith economaidd ar gyflogau yn dylanwadu ar gyflogau staff cymorth tan yn llawer hwyrach.

**6.3.5.** O ran pensiynau staff cymorth, trafododd y Bwrdd opsiynau i wella'r cynnig sydd ar gael yn y cynllun pensiwn. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud cyfraniadau cyfatebol a buddiannau marw yn y swydd.

**6.3.6.** Nododd y Bwrdd fod staff cymorth yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn yn golygu y bydd y swm o arian sydd ar gael pan fydd aelod o staff yn ymddeol yn dibynnu ar faint sydd wedi'i dalu i'r cynllun, unrhyw daliadau sy'n berthnasol, a'r enillion o fuddsoddiadau.

**6.3.7.** Nododd y Bwrdd hefyd nad oes rhaid i staff cymorth wneud cyfraniad at eu pensiwn eu hunain i fod yn gymwys i gael cyfraniad cyflogwr.

**6.3.8.** Nododd y Bwrdd hefyd y gellid cymharu lefel y pensiwn a ddarperir i staff cymorth yn y Senedd yn uniongyrchol â'r pensiwn a ddarperir i staff cymorth yn Nhŷ'r Cyffredin a Senedd yr Alban.

## 6.4. Casgliadau

**6.4.1.** O ran addasiadau cyflog staff cymorth, mae’r Bwrdd o’r farn mai mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yw'r dull mwyaf priodol o hyd ar gyfer addasu cyflogau yng nghyd-destun Cymru, fel yr amlinellir ym Mhennod 2 o’r ddogfen hon. Felly, nid oes gan y Bwrdd unrhyw gynlluniau i newid ei ddefnydd o fynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer cyflogau staff cymorth. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd o’r farn bod yr angen i fynd i’r afael ag ansefydlogrwydd y tueddiadau cyflog yng Nghymru a nodwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yr un mor berthnasol i gyflogau staff cymorth ag y mae i gyflogau’r Aelodau. Waeth beth yw lefel y cyflog a delir, mae’r Bwrdd o’r farn y dylid osgoi amrywiadau sylweddol o ran cyflog o un flwyddyn i'r nesaf, y tu hwnt i derfynau rhesymol.

**6.4.2.** Felly, mae’r Bwrdd yn cynnig cyflwyno terfyn uchaf ar y cynnydd blynyddol yn unol â mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion o dri y cant ac amddiffyn rhag unrhyw addasiad negyddol drwy ddiystyru unrhyw ostyngiad o dan sero y cant i gyflogau staff cymorth yr Aelodau yn y Chweched Senedd. Dyma'r un terfynau ag a gynigir ar gyfer addasiadau i gyflogau’r Aelodau.

**6.4.3.** Os caiff ei gyflwyno, yn sgil yr ymgynghoriad hwn, bydd y Bwrdd yn adolygu effeithiolrwydd y terfyn uchaf a’r terfyn isaf ar addasiadau i gefnogi cyflogau staff ac yn ailystyried terfynau o'r fath os oes angen.

**6.4.4.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y dylai gymryd camau i gynorthwyo staff cymorth ymhellach i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu yn erbyn cyflwyno buddiant marw yn y swydd i'r cynllun pensiwn gan fod eisoes darpariaeth ar gyfer hyn yn y Penderfyniad (paragraffau 7.7 ac 8.7 yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cynnig cyflwyno darpariaeth ar gyfer gwneud cyfraniadau cyfatebol i'r cynllun pensiwn staff cymorth.

**6.4.5.** O ddechrau'r Chweched Senedd ymlaen, mae'r Bwrdd yn cynnig, os bydd aelod o staff cymorth yn dewis gwneud cyfraniad i’w bensiwn ei hun, y bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol pellach hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog. Er enghraifft, os bydd aelod o staff cymorth yn cyfrannu dau y cant o'i gyflog, byddai’r cyflogwyr hefyd yn talu swm cyfatebol o ddau y cant. Os bydd yr aelod o staff cymorth yn cyfrannu pump y cant o'i gyflog, byddai’r cyflogwr yn talu swm cyfatebol o dri y cant, gan mai tri y cant o’r cyflog yw’r uchafswm ar gyfer cyfraniad ychwanegol y cyflogwr.

**6.4.6.** Bwriad y Bwrdd wrth gyflwyno cyfraniadau cyfatebol gan y cyflogwr yw y bydd yn gymhelliant i staff cymorth wneud cyfraniadau i'w cynlluniau pensiwn eu hunain gan helpu i gynyddu eu cynilion ymddeol.

**6.4.7.** Mae'r Bwrdd wedi amcangyfrif y bydd yn arwain at gost ychwanegol o hyd at tua £100,000 y flwyddyn pe bai hyd at hanner y staff cymorth yn dewis talu cyfraniad o dri y cant neu fwy. Fodd bynnag, mae'n ansicr ar hyn o bryd faint o staff cymorth fyddai'n dewis gwneud cyfraniad eu hunain. Ar hyn o bryd mae tua 18 y cant o staff yn dewis gwneud cyfraniad i'w pensiwn.

**6.4.8.** I roi'r cynnig hwn ar waith, byddai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd yn cael ei ddiwygio i fewnosod paragraffau 7.11.3 ac 8.8.3 newydd yn cynnwys y testun isod:

> *Yn ychwanegol at y cyfraniad pensiwn cyflogwr o 10 y cant a delir ar hyn o bryd, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Telir y gost hon o gronfeydd canolog.*

**Cynnig 6. Mae'r Bwrdd yn cynnig gwella'r cynllun pensiwn ar gyfer staff cymorth drwy gyflwyno cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr, lle bydd y cyflogwr yn talu swm sy'n cyfateb i'r cyfraniadau a delir gan y cyflogai hyd at uchafswm o dri y cant o gyflog y cyflogai.**

**Cynnig 7. O ran cyflog staff cymorth yr Aelodau yn y Chweched Senedd, cyflwyno terfyn uchaf ar y cynnydd blynyddol yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion o dri y cant a diystyru unrhyw ostyngiad o dan sero y cant.**

# 7. Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

## 7.1. Crynodeb

Mae'r Bwrdd yn cynnig dileu'r angen am ganllawiau gan y Bwrdd ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan ddibynnu yn lle hynny ar Reolau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, a dileu'r hawl i Aelodau ddefnyddio'r Gronfa ar gyfer costau argraffu ac arwyddion.

## 7.2. Cefndir

**7.2.1.** Mae adran 7.14 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn amlinellu'r darpariaethau ar gyfer defnydd Aelod o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Caiff Aelod hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn (gan gynnwys TAW) tuag at y gost o dalu am arbenigedd polisi penodol, er mwyn cyflawni darn o waith ymchwil penodol neu ymgysylltu ag etholwyr.

**7.2.2.** Pan gyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Mehefin 2020, gwnaeth newidiadau i'r rheolau o ran y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar gyfer y Chweched Senedd a amlinellir yn Adran 7.14 o'r Penderfyniad. Mae'r rheolau perthnasol a gyflwynwyd gynt ar ffurf canllawiau bellach wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad. Mae'r Penderfyniad yn darparu y gellir defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar gyfer ymchwil i ddatblygu polisi, ymchwilio i faterion sydd o bwys i etholwyr a chraffu ar bolisi a deddfwriaeth. Caiff Aelodau hefyd ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i gaffael darnau o waith allanol i greu cynnwys ar gyfer ymgysylltu â'u hetholwyr, gan gynnwys cylchlythyrau. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i dalu'r gost o ledaenu'r cynnwys.

**7.2.3.** Nodir hefyd fod yn rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r rheolau a'r canllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu (paragraff 7.14.8). Cytunwyd ar y rheolau a'r canllawiau cyfredol gan y Bwrdd.

**7.2.4.** Caiff pleidiau gwleidyddol hefyd ddefnyddio gweddill lwfans cymorth eu plaid i ariannu gwaith polisi ac ymchwil (gweler Adran 8.7A). Mae'r rheolau a chanllawiau cyfredol ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn berthnasol i unrhyw ddefnydd gan bleidiau at ddibenion polisi ac ymchwil.

## 7.3. Ystyriaethau

**7.3.1.** Trafododd y Bwrdd y rheolau a'r canllawiau ehangach sy'n sail i weithrediad y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ac a oedd angen canllawiau ar wahân o ystyried y newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad ym mis Mehefin 2020. Mae'r rheolau a'r canllawiau cyfredol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar faterion gweithredol fel sut i wneud cais. Mae hefyd yn cynnwys rheolau ar ddefnyddio logos mewn unrhyw gyhoeddiadau neu ddeunydd cyfathrebu ar gyfer etholwyr.

**7.3.2.** Hefyd, nododd y Bwrdd y **Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd** gan Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd. Diweddarwyd y rhain yn ddiweddar ac maent hefyd yn cynnwys rheolau ar ddefnyddio logos.

**7.3.3.** Trafododd y Bwrdd hefyd a oedd unrhyw oblygiadau posibl i'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu o ganlyniad i'w gynnig i drosglwyddo costau deunydd ysgrifennu a ariennir yn ganolog (fel yr amlinellir ym Mhennod 6 o'r ymgynghoriad hwn). Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys gallu'r Aelodau i ariannu costau argraffu ac arwyddion o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr newydd.

## 7.4. Casgliadau

**7.4.1.** Mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad nad oes angen canllawiau ar wahân gan y Bwrdd ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu o ystyried y newidiadau a wnaed i'r Penderfyniad. Mae o'r farn y bydd yn symlach ac yn gliriach i'r Aelodau gael un set yn unig o reolau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd gan gynnwys y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd yn cynnig dileu'r cyfeiriad yn y Penderfyniad at ganllawiau ar wahân ynghylch y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Yn lle hynny, bydd disgwyl i Aelodau a phleidiau gadw at y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd wrth ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu (neu, yn achos pleidiau gwleidyddol, defnyddio'r balans sy'n weddill at ddibenion polisi ac ymchwil).

**7.4.2.** Mae darpariaeth gyffredinol hefyd yn y Penderfyniad i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau gyhoeddi canllawiau gweithredol ychwanegol os oes angen (paragraff 1.5.1). Os bydd y Bwrdd yn teimlo bod angen unrhyw newidiadau pellach i'r rheolau sy'n ymwneud â'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, bydd yn nodi'r rhain yn y Penderfyniad.

**7.4.3.** Bwriad y Bwrdd felly yw dileu paragraff 7.14.8. Mae'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn berthnasol i'r Penderfyniad cyfan, felly nid oes angen cyfeiriad

ychwanegol ato mewn perthynas â’r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn benodol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig nodi yn y Penderfyniad (ar ôl paragraff 8.7A.4) gyfyngiad ar allu pleidiau i ddefnyddio eu balans sy'n weddill yn ystod y 4 mis cyn etholiad cyffredinol, gan adlewyrchu'r rheol sy'n berthnasol i Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yr Aelodau (paragraff 7.14.6).

**7.4.4.** At hynny, nododd y Bwrdd os bydd deunydd ysgrifennu yn cael ei ariannu’n ganolog o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y bydd Aelodau'n gallu ariannu costau argraffu ac arwyddion o'r gronfa honno a'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Byddai hyn yn ganlyniad anfwriadol i gynigion y Bwrdd ar gyfer newid y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a amlinellir ym Mhennod 6 o’r ddogfen hon. Er mwyn rhoi eglurder i'r Aelodau y dylid defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu am gostau argraffu ac arwyddion, mae'r Bwrdd yn cynnig mewnosod y testun a ganlyn yn Adran 7.14.3 o'r Penderfyniad (y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu):

*Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa ar gyfer costau argraffu ac arwyddion.*

**Cynnig 8. Mae’r Bwrdd yn cynnig dileu'r angen am ganllawiau ychwanegol gan y Bwrdd ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Yn yr un modd â'r holl wariant o dan y Penderfyniad, bydd Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd yn gymwys. Fel diwygiad canlyniadol, mae'r Bwrdd yn cynnig cynnwys terfyn amser cyfatebol yn y Penderfyniad o ran polisi ac ymchwil o dan y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, o bedwar mis cyn etholiad cyffredinol (mae hyn wedi'i gynnwys fel rheol ar gyfer Cronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yr Aelodau ar hyn o bryd, ond dim ond yn y canllawiau ar gyfer y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol).**

**Cynnig 9. Mae’r Bwrdd yn cynnig mai dim ond o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y caiff Aelodau dalu costau argraffu ac arwyddion, ac nid o’r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.**

# 8. Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

## 8.1. Crynodeb

Mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyfanswm gwerth y lwfans i adlewyrchu'r cynnydd o ran costau cyflog ac adnoddau ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

## 8.2. Cefndir

**8.2.1.** Mae Pennod 8 o'r Penderfyniad yn darparu cymorth ariannol i gynorthwyo pleidiau gwleidyddol i gyflawni eu gwaith yn y Senedd. Gellir defnyddio'r gwariant sydd ar gael o dan y lwfans hwn i gyflogi staff i wneud naill ai gwaith ymchwil neu waith gweinyddol ac i dalu costau caffael offer swyddfa.

**8.2.2.** Diben y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yw cynorthwyo Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig ac Aelodau unigol sydd am gael eu hystyried yn blaid wleidyddol i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd. Mae'r diffiniad o 'blaid wleidyddol' yn Adran 'Dehongli' y Penderfyniad[9] yn nodi pwy sy'n gymwys ar gyfer y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol:

> *"Ystyr "Plaid Wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig neu (ii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ei fod am gael ei ystyried yn Blaid Wleidyddol."*

**8.2.3.** Nodir lefel y gefnogaeth sydd ar gael ym Mhennod 8 o'r Penderfyniad ac mae'n dibynu ar nifer aelodau'r blaid wleidyddol ac a yw'n rhan o'r Llywodraeth ai peidio. Bydd unrhyw Blaid Wleidyddol nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys tri aelod neu fwy yn cael hawlio lwfans gweinyddu craidd o £54,870. Bydd unrhyw Bleidiau Gwleidyddol sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn cael lwfans gweinyddu craidd o £10,980 yr Aelod, hyd at uchafswm o £164,600; Caiff gweddill y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei ddyrannu'n gyfartal ymysg yr holl Aelodau nad yw eu pleidiau'n rhan o Lywodraeth Cymru.

[9] Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, Mehefin 2020, tudalen 4

**8.2.4.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd (1.3) yn cynnwys diffiniad o grwpiau gwleidyddol yn y Senedd. Mae'r diffiniad hwn at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006:

*At ddibenion y Ddeddf, grŵp gwleidyddol yw:*

*(i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a chanddo o leiaf dri Aelod yn y Senedd; neu*

*(ii) tri neu fwy o Aelodau sydd, a hwythau heb fod yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 1.3(i), wedi hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol.*

**8.2.5.** Mae'r diffiniadau hyn o blaid wleidyddol a grwpiau gwleidyddol wedi'u llunio at ddibenion gwahanol sy'n gysylltiedig, ac mae'r diffiniadau yn debyg ond nid ydynt yr un peth. Mae diffiniad y Bwrdd yn fwy cul o ran ystyr gan nad yw'n cydnabod grŵp gwleidyddol fel y'i diffinir dod o dan Reol Sefydlog 1.3(ii).

## 8.3. Trafod y dystiolaeth

**8.3.1.** Caiff cyfanswm gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei addasu bob blwyddyn i adlewyrchu costau cynyddol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyflogau staff. Mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd ei addasu'n flynyddol yn unol â'r un mynegai â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer cyflogau staff cymorth.[10] Gwnaed hynny er mwyn sicrhau bod gwerth y lwfans yn adlewyrchu'r costau cyflog uwch. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y lwfans i ariannu cyflogau staff cymorth grŵp yn unig; fe'i defnyddir hefyd i ariannu costau staffio eraill fel costau teithio a chostau offer swyddfa a deunyddiau.

**8.3.2.** Felly yn 2020, cytunodd y Bwrdd blaenorol i addasu'r gyfran gyfartalog a wariwyd ar gyflogau (80.2 y cant) yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, a gweddill y lwfans yn unol â chyfradd y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI).[11] Rhoddodd hyn gynnydd

[10] Caiff tâl Aelodau, deiliaid swyddi a staff cymorth ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn enillion canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

[11] Pennod 8 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, Mehefin 2020

cyffredinol o 3.86 y cant (tra cynyddodd cyflogau 4.4 y cant yn unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion eleni).

**8.3.3.** Y Bwrdd cyntaf a gyflwynodd y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd i gyfrifo dyraniad y lwfans, a hynny cyn y Pumed Senedd. Mae'r dull yn seiliedig ar ddyrannu swm penodedig i gefnogi pob grŵp/plaid ac Aelod unigol, gan ddosrannu'r swm yn dibynnu ar nifer yr Aelodau yn yr un blaid ac a ydynt yn blaid sy'n rhan o'r Llywodraeth neu'n wrthblaid.

**8.3.4.** Mae'r dull wedi cael ei brofi'n helaeth y tymor hwn wrth i sawl grŵp plaid wleidyddol gael ei ffurfio a'i chwalu, gan olygu y bu'n rhaid newid dosbarthiad y lwfans ar sawl achlysur. Mae'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r lwfansau sydd ar gael i bob plaid wleidyddol ac Aelod unigol wedi gweithio yn ôl y bwriad i gynnal terfyn uchaf cyffredinol o ran y swm sy'n cael ei wario ar gefnogi grwpiau'r pleidiau gwleidyddol. Mae hefyd yn golygu bod modd targedu cyllid i gefnogi'r gwrthbleidiau i helpu i ddwyn y Llywodraeth i cyfrif.

**8.3.5.** Cafodd nifer ddigynsail o bleidiau gwleidyddol a grwpiau gwleidyddol eu ffurfio a'u chwalu yn ystod y Pumed Senedd (gan gynnwys ffurfio grŵp o dan Reol Sefydlog 1.3(ii) am y tro cyntaf, o dri Aelod nad oes ganddynt gysylltiad â phlaid wleidyddol gofrestredig). Yn sgil hynny, trafododd y Bwrdd y diffiniad o 'blaid wleidyddol' a nodir yn y Penderfyniad. Yn benodol, trafododd y Bwrdd a fyddai mynd ati i gysoni'r diffiniadau o 'bleidiau gwleidyddol' yn y Penderfyniad a 'grwpiau gwleidyddol' yn Rheolau Sefydlog y Senedd yn rhoi mwy o eglurder i'r Aelodau a'r cyhoedd ynghylch ystyr y cyfeiriadau yn y Penderfyniad.

**8.3.6.** Nododd y Bwrdd hefyd fod Comisiwn y Senedd wedi cadarnhau'n ddiweddar pa mor bwysig yw bod yn glir wrth ddisgrifio cysylltiadau gwleidyddol Aelodau o'r Senedd a pha mor bwysig ydyw bod pleidiau gwleidyddol wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn cael eu cydnabod felly, er nad yw hynny'n angenrheidiol o ran y disgrifiadau o grŵp at ddibenion Rheol Sefydlog 1.3(ii).

## 8.4. Casgliadau

**8.4.1.** Mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr egwyddorion sy'n sail i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol a'r dull o addasu'r lwfans yn glir.

**8.4.2.** Mae'r Bwrdd yn cynnig mabwysiadu'r un fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd blaenorol y llynedd ar gyfer cynyddu cyfanswm gwerth y lwfans. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig bod cyfran y swm sy'n cael ei wario ar gyflogau (sef tua 76 y cant o gyfanswm y lwfans yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf) yn cael ei gynyddu'n unol â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sef 2.4 y cant, a bod gweddill y lwfans (24 y cant) yn cael ei addasu yn ôl cyfradd y

mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi 2020, sef 0.5 y cant. Cred y Bwrdd fod gweithredu'r un fethodoleg yn darparu cynnydd teg i'r lwfans a fyddai'n galluogi pleidiau gwleidyddol i dalu costau codiadau cyflog staff cymorth, heb gynyddu swm cyffredinol y lwfans yn ddiangen.

**8.4.3.** Mae cynnig y Bwrdd yn golygu y bydd cyfanswm gwerth y lwfans ar gyfer 2020-21, sef £999,070, yn cael ei gynyddu 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

**8.4.4.** I roi'r cynnig hwn ar waith, byddai'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd yn cael ei ddiwygio i newid cyfanswm y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol a nodir ar hyn o bryd ym Mhennod 8 i gynnwys y cyfanswm uwch a nodir ym mharagraff 8.4.3 o'r ddogfen hon.

**8.4.5.** Roedd y Bwrdd blaenorol am gadw golwg ar gyfanswm gwerth y lwfans wrth iddo nesau at gyrraedd £1 miliwn, a fyddai'n sylweddol uwch na'r swm cyfatebol yn y sefydliadau seneddol datganoledig eraill. Mae'r Bwrdd presennol yn cadw golwg ar hyn hefyd, ond o gofio mai un o brif ddibenion y lwfansau yw cynorthwyo pleidiau gwleidyddol i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, ni chredai fod digon o gyfiawnhad ar hyn o bryd dros ddiwygio cyfanswm gwerth y lwfans. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd o'r farn y dylid ystyried costau a gweithrediad y lwfans cyfan fel rhan o unrhyw waith posibl yn y dyfodol yn sgil cynyddu maint y sefydliad, os daw cynigion o'r fath i'r fei yn ystod tymor nesaf y Senedd.

**8.4.6.** Bydd y Bwrdd yn adolygu'n flynyddol y mecanwaith a ddefnyddir i addasu cyfanswm gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. O ran y terfyn uchaf a'r terfyn isaf a gynigir ar gyfer addasiadau blynyddol i gyflogau Aelodau a staff cymorth a amlinellir yn y ddogfen hon, os cânt eu cyflwyno yn dilyn yr ymgynghoriad hwn byddant yn berthnasol i addasiadau blynyddol i gyfran y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol sydd ar gael ar gyfer talu costau cyflog.

**8.4.7.** Er mwyn bod yn gliriach am ystyr 'plaid wleidyddol' yn y Penderfyniad, sy'n cyfeirio at 'grwpiau gwleidyddol', mae'r Bwrdd yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad yn y Penderfyniad i gyfeirio at y diffiniad o 'grŵp gwleidyddol' yn Rheolau Sefydlog y Senedd a sicrhau mwy o gysondeb. Dylai hynny ei gwneud yn gliriach pwy sy'n gymwys i gael y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi'i argyhoeddi gan y ddadl mai dim ond pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol y dylid eu cydnabod felly yn y Senedd.

**8.4.8.** Ni fyddai newid o'r fath i'r diffiniad o 'blaid wleidyddol' yn y Penderfyniad, pe bai'n cael ei weithredu yn sgil yr ymgynghoriad hwn, yn effeithio ar gymhwysedd y grwpiau pleidiau gwleidyddol a geir ar hyn o bryd yn y Senedd ar gyfer y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol.

Byddai'r newid arfaethedig yn golygu y bydd y diffiniad o blaid wleidyddol yn y Penderfyniad yn cynnwys cyfeiriad at y diffiniad cyfatebol yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Felly byddai unrhyw newid i'r diffiniad yn y Rheolau Sefydlog yn berthnasol i'r diffiniad yn y Penderfyniad.

**8.4.9.** Fodd bynnag, nid yw'n effeithio ar y meini prawf ar gyfer y cyllid gweinyddol craidd a delir i'r gwrthbleidiau. Bydd unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig sydd â thri Aelod neu fwy yn cael cyllid gweinyddol craidd (neu os nad ydynt yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig, rhaid iddynt fod yn grŵp fel y'i diffinnir yn y Rheolau Sefydlog).

**Cynnig 10. Mewn ymateb i'r chwyddiant costau a welwyd yn sgil yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.**

**Cynnig 11. Newid y diffiniad o 'bleidiau gwleidyddol' yn adran 'Dehongli' y Penderfyniad i:**

**"Ystyr "Plaid Wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol a gofrestrwyd â'r Comisiwn Etholiadol neu (ii) yr hyn yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3(ii), neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod yn aelod o Blaid Wleidyddol gofrestredig."**

# 9. Cydraddoldeb

**9.1.1.** Mae'r Bwrdd wedi cyflwyno newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd sydd â'r nod o sicrhau nad yw'r cymorth a'r gydnabyddiaeth a gynigir i Aelodau yn atal pobl rhag sefyll i gael eu hethol i'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lwfans i helpu'r Aelodau i dalu costau sy'n ymwneud ag anabledd neu anableddau;
- adnoddau ychwanegol i helpu gyda llwyth gwaith Aelod yn ystod cyfnod o absenoldeb rhiant; a
- chyfraniad at gostau gofal plant a/neu ddibynyddion pan fo'n rhaid i Aelodau weithio y tu hwnt i'r oriau sy'n ystyriol o deuluoedd, gan adlewyrchu trefniadau tebyg sydd ar waith ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**9.1.2.** Mae deall y cymhellion dros sefyll mewn etholiad, a'r rhwystrau rhag gwneud hynny, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Yn sgil hynny, mae'r Bwrdd am sicrhau bod y Penderfyniad yn galluogi ac yn cefnogi ystod mor amrywiol â phosibl o ymgeiswyr i ddod yn Aelodau.

**9.1.3.** Er mwyn llywio ei asesiad effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, byddai'r Bwrdd yn falch o glywed eich barn ar y pwyntiau a ganlyn:

- a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon fod ag unrhyw oblygiadau i bobl sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchodedig;
- a allai'r materion a godwyd gennych wrth ymateb i'r arolwg hwn gael effaith wirioneddol neu effaith bosibl ar bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchodedig fel y cânt eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

**9.1.4.** Sylwer mai'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a thueddfryd rhywiol.